Cynllun Rheoli Cenedlaethol ar gyfer y Deyrnas Unedig ac adroddiadau blynyddol ar weithredu'r Cynllun

Crynodeb Gweithredol

Mae'r Cynllun Rheoli Cenedlaethol ar gyfer y Deyrnas Unedig yn manylu ar swyddogaeth a chyfrifoldebau'r gwahanol awdurdodau a'r cyrff cysylltiedig sy'n ymwneud â monitro, a gorfodi cydymffurfiad â, deddfwriaeth porthiant a bwyd, rheolau iechyd a lles anifeiliaid a gofynion iechyd planhigion.

Mae hefyd yn cynnig trosolwg o sut y bydd yr awdurdodau hyn a chyrff eraill yn gweithio gyda'i gilydd i ddiogelu iechyd y cyhoedd, anifeiliaid a phlanhigion, diogelu defnyddwyr a hyrwyddo lles anifeiliaid

Nodir hefyd yr amcanion strategol a'r gweithgareddau y mae'r gwahanol awdurdodau yn bwriadu eu cyflawni ar gyfer cyfnod y Cynllun.

Mae'r Asiantaeth, yr Adran Amaethyddiaeth, Bwyd a Materion Gwledig (Defra), ac Adrannau Amaethyddiaeth / Materion Gwledig yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon wedi paratoi ar y cyd Gynllun Rheoli Cenedlaethol cyntaf y DU. Mae'r Cynllun yn trafod y cyfnod rhwng 1 Ionawr 2007 a 31 Mawrth 2011.

Ynghylch y Cynllun

Mae Cynllun y DU yn bodloni'r gofyniad yn Rheoliad 882/2004 yr Undeb Ewropeaidd bod rhaid i bob Aelod-wladwriaeth sefydlu a gweithredu Cynllun Rheoli Cenedlaethol tair i bum mlynedd o hyd erbyn 1 Ionawr 2007 ar gyfer rheoli'n swyddogol porthiant, bwydydd, iechyd anifeiliaid a lles anifeiliaid. Dyma'r sail y bydd gwasanaethau archwilio'r Comisiwn Ewropeaidd yn ei ddefnyddio i asesu perfformiad systemau rheoli cenedlaethol y DU.

Yr hyn yr ydym am ei gyflawni

Prif amcanion y Cynllun Rheoli Cenedlaethol yw sicrhau y gweithredir deddfwriaeth y Gymuned Ewropeaidd ar borthiant a bwyd, iechyd anifeiliaid a lles anifeiliaid, ac ar iechyd planhigion yn y DU, a bod systemau effeithlon (systemau rheoli swyddogol) wedi'u sefydlu ar gyfer monitro a gorfodi cydymffurfiaeth â'r gwahanol reolau. Bydd hyn yn cyfrannu at ddiogelu iechyd y cyhoedd, anifeiliaid a phlanhigion yn ogystal â gwarchod buddiannau defnyddwyr a hyrwyddo lles anifeiliaid.

Cyd-weithio

Er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd, anifeiliaid a phlanhigion, gwarchod defnyddwyr a hyrwyddo lles anifeiliaid, mae'n hanfodol bod y gwahanol awdurdodau a chyrff eraill sydd â rhan mewn gweithredu rheolaethau swyddogol yn cydgysylltu eu gweithgareddau, ac yn cyd-weithio er mwyn sicrhau nad oes bylchau a'u bod yn cyd-weithredu'n effeithlon.

Sefydlwyd gwahanol fecanweithiau i hwyluso hyn ac ar gyfer ymdopi ag argyfyngau.

Maent yn cynnwys:

- bydd yr awdurdodau canolog yn sefydlu gwahanol bwyllgorau a grwpiau cyswllt ar gyfer trafod materion gorfodaeth
- darperir canllawiau a chodau ymarfer ar gyfer swyddogion gorfodi
- datblygir cynlluniau argyfwng a chynlluniau wrth gefn
- gwneir trefniadau penodol ar gyfer cydgysylltu â'r Comisiwn Ewropeaidd a'r awdurdodau yn yr Aelod-wladwriaethau eraill.

Mae LACORS - Cydgysylltwyr Gwasanaethau Rheoliadol yr Awdurdodau Lleol - yn chwarae rhan allweddol yn y sectorau porthiant a bwyd, a lles ac iechyd anifeiliaid. Eu nod yw cynhyrchu arferion gorau a chanllawiau i gefnogi awdurdodau lleol yn y DU a'u cyflwyno i Adrannau ac asiantaethau'r Llywodraeth ganolog.

Codi safonau a rhannu arfer da

Fel sy'n wir am bob system o reoli cyfreithiol, mae effeithiolrwydd deddfwriaeth porthiant a bwyd a rheolau iechyd a lles anifeiliaid yn dibynnu ar ba mor dda y caiff gofynion deddfwriaethol eu monitro a'u gorfodi. Er mwyn sicrhau bod yr awdurdodau cymwys yn darparu gwasanaeth effeithiol a chyson, mae deddfwriaeth Ewropeaidd yn mynnu bod eu perfformiad yn cael ei archwilio.

Mewn rhai meysydd, er enghraifft gwasanaethau gorfodi deddfwriaeth porthiant a bwyd yr awdurdodau lleol, mae cynlluniau archwilio eisoes yn bodoli

Drwy'r rhain, gellir asesu perfformiad gwasanaethau yn erbyn safonau diffiniedig ac anelu hefyd at adnabod a lledaenu ymarfer da. Mae'r cynllun yn agored i archwiliad annibynnol. Sefydlwyd trefniadau er mwyn sicrhau tryloywder ar gyfer rhanddeiliaid perthnasol.

Sefydlir hefyd drefniadau archwilio a fydd yn dilyn yr un egwyddorion ar gyfer awdurdodau eraill.

Pwy sy'n gwneud beth

Canolwyd yr atebolrwydd gweithredol ynghylch rheolaethau porthiant a bwyd yn y DU. Yn ymarferol, rhennir y cyfrifoldeb beunyddiol rhwng Llywodraeth leol a'r Llywodraeth ganolog.

Yr awdurdodau canolog yw'r Asiantaeth Safonau Bwyd (gan gynnwys y Gwasanaeth Hylendid Cig), DEFRA (a'i hasiantaethau), ac Adrannau Amaethyddiaeth / Materion Gwledig y Gweinyddiaethau Datganoledig.

Fodd bynnag caiff y rhan fwyaf o ddeddfwriaeth bwyd eu monitro a'u gorfodi yn y DU gan yr awdurdodau lleol. Mae hyn yn wir hefyd am ddeddfwriaeth porthiant ym Mhrydain. Yng Ngogledd Iwerddon, cyflawnir y swyddogaeth hon gan yr Adran Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig.

Ceir sefyllfa debyg gyda rheolaethau iechyd a lles anifeiliaid. DEFRA a'r Adrannau cyfatebol yn y Gweinyddiaethau Datganoledig sydd â'r cyfrifoldeb canolog, gyda'r Adrannau canolog (neu eu hasiantaethau) a'r awdurdodau lleol yn cyflawni'r gwaith beunyddiol.

Yn y sector iechyd planhigion, mae'r cyfrifoldeb am reolaethau yn nwylo Gwasanaeth Iechyd Planhigion y DU: nifer o unedau yn DEFRA ynghyd â'r Comisiwn Coedwigaeth ac Adrannau Amaethyddiaeth / Materion Gwledig y Gweinyddiaethau Datganoledig.

Gelwir y gwahanol Adrannau hyn sy'n perthyn i Lywodraeth ganolog a lleol sydd yn gyfrifol am drefnu a gweithredu rheolaethau swyddogol yn 'awdurdodau cymwys'.

Cânt eu cynorthwyo gan labordai Cyfeiriol Cenedlaethol a swyddogol, a hefyd gan nifer o drydydd partïon annibynnol ('cyrff rheolaethol') y cafodd swyddogaethau rheoli penodol eu dirprwyo iddynt.

Cyd-agenda

Drwy gydol cyfnod y Cynllun Rheoli Cenedlaethol, bydd y gwahanol awdurdodau, canolog a lleol, yn datblygu ac yn gweithredu agenda ar y cyd a fydd yn helpu i sicrhau systemau effeithlon o ran rhoi rheolaethau swyddogol ar waith yn y sectorau porthiant a bwyd, iechyd a lles anifeiliaid ac iechyd planhigion.

Dyma weledigaeth yr Asiantaethau Safonau Iechyd:

'O fewn fframwaith reolaethol gadarn cael cymaint â phosibl o gydymffurfiaeth yn y diwydiant a fydd, gyda chwsmeriaid gwybodus ac wedi'u grymuso, yn sicrhau gwell iechyd cyhoeddus ac yn cynyddu hyder.'

Yn ystod cyfnod y Cynllun Rheoli Cenedlaethol, bydd yr Asiantaeth yn gweithio mewn partneriaeth gyda'i rhanddeiliaid sy'n gorfodi, y defnyddwyr a'r diwydiant i fodloni amcanion ei Chynllun Strategol 2005 – 2010.

Hefyd, bydd DEFRA ac Adrannau Amaethyddiaeth / Materion Gwledig y Gweinyddiaethau Datganoledig yn gweithio gyda'u partneriaid cyflawni a rhanddeiliaid o'r diwydiant i ddiogelu iechyd anifeiliaid, hyrwyddo lles anifeiliaid a rheoli'r rheolaethau porthiant a bwyd hynny sydd o fewn eu cylch gorchwyl.

Bydd y gwahanol unedau sy'n ffurfio Gwasanaeth Iechyd Planhigion y DU yn parhau i weithio gyda'i gilydd i ddiogelu cefn gwlad ac yn helpu i gyfrannu tuag at amaethyddiaeth a bwyd cynaliadwy.

Monitro a chofnodi ein cynnydd

Caiff cynnydd o ran rhoi'r Cynllun Rheoli Cenedlaethol ar waith ei fonitro yn barhaus a rhaid paratoi adroddiad blynyddol i'w anfon i'r Comisiwn Ewropeaidd (gweler isod).

Cydlynir y broses adolygu ac adrodd yn ôl gan yr Asiantaeth mewn cydweithrediad â DEFRA a'i Hasiantaethau ac Adrannau Amaethyddiaeth / Materion Gwledig y Gweinyddiaethau Datganoledig.

Caiff y Cynllun Rheoli Cenedlaethol ei reoli a'i ddiweddaru'n rhagweithiol fel bo'r angen. Seilir adrodd yn ôl ar y blaenoriaethau strategol ym Mhennod 2.

Adroddiadau cynnydd blynyddol

Mae Rheoliad 882/2004 yn ei gwneud yn ofynnol i Aelod-wladwriaethau adrodd yn flynyddol i'r Comisiwn Ewropeaidd ar gynnydd a wneir wrth roi'r amcanion a nodir yn y Cynllun Rheoli Cenedlaethol ar waith a chyflawni'r amcanion hynny yn llwyddiannus. Gwneir hyn drwy asesu effeithiolrwydd a datblygiad systemau a threfniadau rheoli a datblygu yr awdurdodau cymwys a chyrff eraill sy'n ymwneud â rheolaethau swyddogol.

Bydd yr adroddiadau hyn yn cael eu defnyddio gan wasanaethau arolygu'r Comisiwn Ewropeaidd, y Swyddfa Bwyd a Milfeddygaeth, i gynllunio eu gwaith wrth archwilio trefniadau rheoli mewn Aelod-wladwriaethau. At hynny, bydd yr adroddiadau, ynghyd ag adroddiadau tebyg a baratowyd gan Aelod-wladwriaethau eraill, yn cyfrannu at adroddiad y Comisiwn Ewropeaidd i Senedd Ewrop a'r Cyngor ar weithredu cyffredinol y rheolaethau swyddogol ar draws y Gymuned Ewropeaidd.

Cyflwynwyd yr adroddiad cyntaf ar gynnydd wrth roi Cynllun Rheoli Cenedlaethol y DU ar waith i'r Comisiwn yn ystod mis Tachwedd 2008. Mae'n trafod y cyfnod rhwng 1 Ionawr a 31 Rhagfyr 2007 ac mae copi ar gael isod.